**Mae marchnadoedd ar-lein yn hwyluso gwerthu teganau anniogel i'r DU, yn aml gan werthwyr trydydd parti wedi'u lleoli dramor. Wrth siopa ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod o bwy rydych chi'n prynu a chwiliwch am gyfeiriad y DU.**

A

- :

| 88% | 48% | 69% |
|---|---|---|
| O'R TEGANAU A BROFWYD YN ANGHYFREITHLON I'W GWERTHU YN Y DU | O'R TEGANAU A BROFWYD YN ANNIOGEL I BLENTYN CHWARAE GYDA NHW | O DEGANAU A DYNNWYD YN ÔL YN DAL I GAEL EU GWERTHU |

**"Mae plant yn y DU mewn perygl o farwolaeth ac anafiad difrifol o'r gwerthiant o deganau anniogel trwy farchnadoedd ar-lein."**
British Toy and Hobby Association

## Beth yw'r risgiau?

Mae safonau masnach wedi atal sawl cynnyrch tegan anniogel rhag dod i mewn i'r wlad, gan gynnwys:

- Gynnau deintbig a saethodd yn ddigon caled i dyllu can metel
- Byrddau dartiau magnetig gyda magnetau digon pwerus i anafu plentyn
- Bocsys storio teganau sy'n peri risg difrifol o fygu a thân
- Teganau meddal niferus yn peri risgiau tagu, mygu a cemegol

Mae OPSS yn gweithio gyda safonau masnach lleol i gael gwared ar eitemau peryglus ar-lein, ar ôl tynnu mwy na 10,000 o gynhyrchion anniogel, gan gynnwys teganau, i lawr yn 2021 yn unig.

**Os ydych chi'n pryderu am ba mor ddiogel yw cynnyrch, rhowch wybod i'ch gwasanaeth Safonau Masnach Lleol, y gallwch chi ei wneud trwy Linell Gymorth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth (Consumerline yng Ngogledd Iwerddon neu consumradvice.scot yn yr Alban).**